



Datganiad o Bwrpas a Chynllun Gweithredu

Clwb Plant Llandegfan Kids Club

Personau Cofrestredig: Patricia Roberts a Mariann Griffiths

Person Cyfrifol: Patricia Roberts

Strwythur Cyfreithiol: Elusen Gofrestredig

Cadeirydd: John Latchford

Trefniadaeth

Mae Clwb Plant Llandegfan Kids Club wedi ei gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a Gorchymyn Rheoleiddio Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2016 i ddarparu gofal dydd. Patricia Roberts yw'r Person Cyfrifol.

Mae ein clwb yn cael ei redeg fel sefydliad di-elw, ac mae pedwar aelod o staff wedi eu cyflogi ar hyn o bryd. Rydym yn mwynhau cael perthynas waith agos ag Ysgol Gynradd Llandegfan er mwyn sicrhau gofal parhaus, ac i gynnal cysylltiadau cyfathrebu da.

Mae gennym bwyllgor o wirfoddolwyr sy'n goruchwylio trefniadaeth a gwaith cynnal y lleoliad. Mae'r pwyllgor yn cefnogi ein Rheolwr i werthuso a gwneud cynlluniau ar gyfer datblygu'r clwb, adolygu ansawdd ein gofal yn flynyddol a helpu o ran codi arian a rheoli ein cyllid.

Gallwch lawrlwytho ein hadroddiad arolygu diweddaraf yma:

[8930 c 191125 e.pdf \(llyw.cymru\)](#)



Y prif berson cyswllt ar gyfer Clwb Plant Llandegfan Kids Club yw:

**Patricia Roberts
Clwb Plant Llandegfan Kids Club
Ysgol Gynradd Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5UW**

07717 380 386

clwbplantllandegfan@outlook.com

Dylid defnyddio'r cyfeiriad hwn ar gyfer pob gohebiaeth ysgrifenedig i'r clwb, gan gynnwys unrhyw ohebiaeth i'r pwyllgor rheoli a'r Person Cofrestredig/Person Cyfrifol. Noder bod y rhif uchod ar gyfer cysylltu â'r Rheolwr yn unig. Y rhif y mae angen i chi ei ffonio pan fyddwch wedi cyrraedd i gasglu eich plentyn yw: 07591 582 993.



Updated - October 2021 - Patricia Roberts

Nodau ac Amcanion

Yng Nghlwb Plant Llandegfan Kids Club ein nod yw darparu gofal plant o ansawdd sy'n hygyrch y tu allan i'r ysgol gan gynnig amgylchedd diogel i chwarae, dysgu a chymdeithasu ar ôl ysgol a hefyd yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae'r clwb yn rhannu ystafell â'r Cylch Meithrin a defnyddir neuadd yr ysgol hefyd ar gyfer rhai gweithgareddau fel gemau a choginio. Rydym yn aelod o Glybiau Plant Cymru Kids' Club sy'n bodoli i helpu cymunedau yng Nghymru trwy hyrwyddo, datblygu a chefnogi clybiau gofal plant sy'n hygyrch, yn fforddiadwy ac o ansawdd y tu allan i'r ysgol. Rydym wedi cofrestru ag AGC sy'n archwilio ac yn gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er llesiant pobl Cymru.

Oriau Agor

- Mae'r clwb ar ôl ysgol ar agor rhwng 3:05pm a 5:45pm bob dydd yn ystod tymor yr ysgol.
- Mae'r clwb gwyliau ar agor rhwng 8:00am a 5:45pm fel arfer ar ddydd Mawrth a dydd Iau yn dibynnu ar gael digon o archebion.

Darperir Gofal i Blant fel a ganlyn:

Rydym yn gallu cynnig hyd at 24 o leoedd i blant rhwng 3 a 12 oed sy'n mynd i Ysgol Gynradd Llandegfan. Rydym yn lleoliad cynhwysol ac rydym yn hapus i drafod sut y gallwn fodloni anghenion eich plentyn yn y clwb.

Eiddo'r Clwb a'r Cyfleusterau a gynigir

Mae ein clwb wedi'i leoli yn Ysgol Gynradd Llandegfan ac mae ganddo'r unig ddefnydd o'r dosbarth cyn-ysgol, y neuadd a'r holl fannau chwarae awyr agored yn ystod oriau ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae'r clwb yn darparu manau priodol ar gyfer ystod o anghenion gan gynnwys man paratoi bwyd, man tawel, man chwarae mawr a man chwarae awyr agored helaeth. Mae toiledau a chyfleusterau cymorth cyntaf ar gael yn ogystal â man storio a gweinyddu. Mae nifer addas o doiledau ar gael i'w defnyddio gan y plant sy'n dod i'r clwb, ac mae toiledau ar wahân i'w defnyddio gan staff.

Yr Hyn Rydym yn ei Gynnig

Mae ein sesiynau ar ôl ysgol yn canolbwyntio ar fethodoleg Gwaith Chwarae ac rydym yn annog plant i fodloni eu hanghenion a'u diddordebau gyda chymorth ein Gweithwyr Chwarae. Rydym yn deall mai dewisiadau plant ar ôl ysgol yw gorffwys a threulio amser yn



gwneud gweithgareddau mwy tawel o bosibl, yn ogystal â chymryd rhan mewn chwarae mwy egniol y tu allan. Rydym yn ymdrechu i gynllunio a darparu rhaglen amrywiol o opsiynau i blant naill ai gymryd rhan ynddynt neu eu hanwybyddu fel y dymunant.

Rydym yn annog darpariaeth dan arweiniad plant yn ein clwb ond mae ein staff bob amser yn barod i gamu i mewn a helpu o ran rhoi syniadau ac ysbrydoliaeth yn ôl yr angen. Bydd detholiad o weithgareddau ac adnoddau ar gael bob amser gan gynnwys cornel cartref, crefft, gemau bwrdd, adeiladu, darllen a chwarae corfforol.

Bydd rhai gweithgareddau'n cael eu cynllunio'n wythnosol gan Weithiwr Chwarae, gan barhau i gynig digon o gyfleoedd i chwarae'n rhydd. Anogir plant i gymryd rhan mewn gwaith cynllunio a gwerthuso gweithgareddau a syniadau yn ymwneud ag offer pan fydd yn cael ei brynu.

Trefn

Mae staff yn casglu plant o neuadd yr ysgol ac yn mynd gyda nhw i adeilad y clwb lle mae'r plant yn cael eu cofrestru. Mae athrawon dosbarth yn cael enwau'r plant sy'n mynd i'r clwb er gwybodaeth ac er mwyn caniatáu iddynt symud yn esmwyth o'r ysgol i'r clwb. Daw'r clwb yn gyfrifol am y plant o 3.05pm ymlaen ar ddiwedd y diwrnod ysgol, ac o'r adeg y daw'r rhiant/gofalwr â'r plentyn i'r clwb ar gyfer y clwb gwyliau. Y rhieni/gofalwyr fydd yn gyfrifol o'r adeg y mae'r plentyn yn cael ei gasglu, a'i lofnodi allan o'r clwb.

Mae byrbrydau a diodydd ar gael ar ddechrau'r sesiwn. Mae'r holl fwyd a diodydd a gynigir yn cael eu darparu'n unol â'n polisi bwyta'n iach, ac maent yn bodloni hoffterau ac anghenion bwyd plant fel y nodir ar ffurflen gofrestru'r plentyn. Mae dŵr yfed ar gael i blant bob amser.

Amlinellir enghraifft o'r drefn gyffredin isod, ond, mae'n bwysig cydnabod bod hon yn enghraifft a'i bod yn destun newid yn dibynnu ar anghenion a diddordebau'r plant.

Trefn y Clwb - Ar Ôl Ysgol

3:05pm - 3:15pm	Casglu a Chofrestru
3:15pm - 3:45pm	Amser Byrbrydau
3:45pm - 5:45pm	Chwarae Rhydd a Strwythuredig
5:45pm	Clwb yn Cau i Blant
5:45pm - 6:00pm	Staff yn Tacluso ac yn Cau'r Clwb

Trefn y Clwb - Clwb Gwyliau

8:00am - 9:00am	Cyrraedd a Chofrestru
9:00am - 10:30am	Chwarae Rhydd a Strwythuredig
10:30am - 11:00am	Amser Byrbrydau
11:00am - 12:30pm	Chwarae Rhydd a Strwythuredig
12:30pm - 1:00pm	Amser Cinio
1:00pm - 2:00pm	Amser Tawel/Ffilm
2:00pm - 3:30pm	Chwarae Rhydd a Strwythuredig
3:30pm - 4:00pm	Amser Byrbrydau
4:00pm - 5:45pm	Chwarae Rhydd a Strwythuredig
5:45pm	Clwb yn Cau i Blant
5:45pm - 6:00pm	Staff yn Tacluso ac yn Cau'r Clwb

Clwb Gwyliau - Weithiau, trefnir teithiau neu gwahoddir darparwyr gweithgareddau allanol o bosibl, cynhelir yr holl asesiadau risg a'r gweithdrefnau angenrheidiol yn yr achosion hyn.

Ieithoedd a ddefnyddir

Mae ein clwb yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, gall plant siarad â staff yn eu dewis iaith. Defnyddir arwyddion dwyieithog lle bo hynny'n briodol ac mae'r Gymraeg yn cael ei hymgorffori yn nhrefn ddyddiol y clwb. Mae ein gwasanaeth yn ceisio darparu Cynnig Rhagweithiol yr Iaith Gymraeg.

Staffio

Mae lefelau staffio yn cwrdd â'r gofynion a bennir gan AGC bob amser o ran cymarebau a chymwysterau. Mae staff yn gweithio i gwrdd â'r gofynion rheoleiddio bob amser neu'n rhagori arnynt. Mae ein clwb yn croesawu myfyrwyr ar leoliad, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr sy'n cyfoethogi profiadau plant.


Mae ein clwb yn cael ei staffio gan Reolwr - Patricia Roberts, Goruchwyliwr - Jeanette Owen a dau Chwaraewr Chwarae - Mariann Griffiths a Natasha Griffiths. Mae gan bob un o'n staff brofiad sylweddol o weithio gyda phlant ac maent yn ymgymryd â hyfforddiant datblygiad proffesiynol. Mae hyn yn ychwanegol i fodloni, neu weithio tuag at fodloni, y gofynion cymhwyster gofynnol a restrir ar Restr Cymwysterau Gofynnol Skills Active.

Mae gan ein Rheolwr Patricia Ddiploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (Rheoli) yn ogystal â Gwobr Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae. Mae gan ein Goruchwyliwr Jeanette Wobr Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae ac, ar hyn o bryd, mae ein dau Weithiwr Chwarae, Mariann a Natasha, yn gweithio tuag at ennill Gwobr Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae.

Rydym yn sicrhau bod cymhareb staff/plentyn o 1:8 ar gyfer plant o dan wyth oed, a chymhareb o 1:10 ar gyfer plant dros wyth oed. Mae gan bob aelod o staff wiriadau DBS priodol.

Os oes gennych gwestiwn neu bryder ar unrhyw adeg, siaradwch ag aelod o staff y clwb pan fyddwch yn casglu eich plentyn. Neu, os yw'n well gennych, gallwch drefnu amser mwy cyfleus ar gyfer cyfarfod trwy gysylltu â'r Rheolwr.

Rolau Dynodedig Staff	
Personau Cofrestredig:	Patricia Roberts a Mariann Griffiths
Person Cyfrifol:	Patricia Roberts
Dirprwy a Enwyd yn Achos Absenoldeb y Person Cyfrifol:	Jeanette Owen



Person Diogelu Dynodedig	Patricia Roberts
Cymhorthydd Cyntaf Dynodedig	Patricia Roberts/Jeanette Owen

Polisiâu a Gweithdrefnau

Mae gan y clwb bolisiau a gweithdrefnau sydd wedi'u diffinio'n glir. Mae pwyntiau allweddol y prif bolisiau wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Bwrpas a'r Cynllun Gweithredu hwn. Cedwir copïau o'r polisiâu llawn yn y clwb yn ogystal ag mewn cyfrif Google Drive a rennir yn benodol ar gyfer y clwb. Mae'r holl bolisiau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu a'u diweddarau bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth, y safonau a'r arferion gorau perthnasol. Mae'r holl staff yn gyfarwydd â chynnwys yr holl bolisiau/gweithdrefnau ac mae copïau electronig ar gael yn hawdd i rieni/gofalwyr ar gais.

Telerau ac Amodau

Derbyn

Nod ein clwb yw bod yn hygyrch i blant a theuluoedd o bob rhan o'n cymuned leol. Mae'r broses o gael eich derbyn i'r clwb yn cael ei threfnu gan y Rheolwr ac rydym yn defnyddio system rhestr aros pan fo'r angen yn codi. Caiff y rhestr aros ei gweithredu ar sail y cyntaf i'r felin, ac eithrio brodyr a chwiorydd a fydd yn cael blaenoriaeth ar yr un dyddiau â brawd neu chwaer sydd eisoes yn mynd i'r clwb. Gofynnwch am y Polisi Derbyn a Ffioedd am ragor o fanylion.

Mae angen i chi gyflwyno cyfres o ffurflenni cofrestru wedi'u cwblhau ar gyfer eich plentyn cyn y gall fynd i'r clwb. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei thrin yn gyfrinachol a bydd yn cael ei storio'n briodol.

Mae angen ailgofrestru ar gyfer mis Medi ar ddiwedd tymor yr haf. Ni allwn gadw lle ar gyfer eich plentyn oni bai eich bod yn llenwi ffurflen archebu a ffurflen gofrestru newydd erbyn y dyddiad penodedig.

Mae'r telerau a'r amodau ar gyfer defnyddio'r Clwb wedi'u nodi yn ein contract rhiant/clwb ac yn ein polisiâu a'n gweithdrefnau. Rhaid i rieni/gofalwyr arwyddo hwn cyn i'w plentyn ddechrau mynd i'r clwb. Mae'r contract hwn yn cynnwys trefniadau ar gyfer casglu ffioedd.

Talu Ffioedd

Ein ffioedd presennol yw £8.00 fesul plentyn fesul sesiwn ar ôl ysgol a £22.00 fesul plentyn fesul dydd ar gyfer y Clwb Gwyliau. Mae ffioedd yn daladwy trwy drosglwyddiad banc, Gofal Plant Di-dreth neu Dalebau Gofal Plant. Bydd anfoneb yn cael ei e-bostio atoch bob hanner tymor gyda manylion ar sut i dalu ac erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid talu'r swm llawn. Bydd cost o £20.00 am bob wythnos y bydd taliad yn hwyr, ychwanegir hwn at eich anfoneb nesaf.

Rydym wedi cofrestru â Chynnig Gofal Plant Cymru, siaradwch â'r Rheolwr os ydych am hawlio gofal plant a ariennir gan Gynnig Gofal Plant Cymru. Ar hyn o bryd rydym yn derbyn

talebau gofal plant gan Edenred a Sodexo. Fodd bynnag, os ydych yn cael talebau gofal plant gan gwmni arall, rhowch wybod i'r Rheolwr, byddwn yn gwneud ein gorau glas i'ch helpu.

Mae'r pris fesul sesiwn fesul plentyn yn berthnasol i bob plentyn, ac mae hwn yn daladwy am bob sesiwn a archebir gan gynnwys pan fydd eich plentyn yn sâl, neu ar wyliau waeth faint o rybudd a roddir. Nid ydym yn codi tâl am wyliau banc na diwrnodau hyfforddiant i athrawon.

Sicrhewch fod ffioedd yn cael eu talu'n brydlon, gallai peidio â thalu am fwy nag un mis arwain at derfynu lle eich plentyn. Os ydych yn cael trafferth talu ffioedd, siaradwch yn gyfrinachol â'r Rheolwr.

Newidiadau i Ddyddiau a Chanslo Lle Eich Plentyn

Rhaid i chi roi pedair wythnos o rybudd i ni cyn terfynu lle eich plentyn. Os oes angen i chi newid y diwrnodau y mae eich plentyn yn mynd i'r clwb, cysylltwch â'r Rheolwr. Rydym yn ceisio darparu ar gyfer newidiadau o'r fath lle bynnag y bo modd ond yn anffodus nid oes sicrwydd o hynny.

Newidiadau Dros Dro

Cofiwch fod angen i ni gael gwybod os na fydd eich plentyn yn dod i'r clwb am unrhyw reswm. Hyd yn oed os ydych wedi rhoi gwybod i ysgol eich plentyn, mae angen i chi roi gwybod i ni ar wahân o hyd. Os na fydd eich plentyn yn mynd i sesiwn a archebir, bydd yn rhaid i ni ei drin fel plentyn ar goll oni bai eich bod wedi rhoi gwybod i ni am ei absenoldeb. I roi gwybod i ni am absenoldeb eich plentyn, anfonwch neges destun at y Rheolwr ar 07717 380 386.

Ni fydd plant yn cael eu rhyddhau i oedolion nad ydynt wedi'u henwi ar eu ffurflenni cofrestru fel oedolion sydd wedi'u hawdurdodi i gasglu. Felly, os oes gan eich plentyn drefniant i chwarae â phlentyn arall, rhaid i chi roi gwybod i'r Rheolwr fel arall ni fydd eich plentyn yn cael ei ryddhau o'r clwb. Nid oes gan staff yr amser i ffonio rhieni yn ystod yr amser casglu (sef ein hamser prysuraf) i wirio trefniadau ar ôl ysgol a gynlluniwyd ymlaen llaw a allai fod wedi'u gwneud, felly rhowch wybod i ni i osgoi unrhyw drallod i'ch plentyn.

Anwytho

Mae croeso i chi a'ch plentyn ymweld â'r clwb cyn diwrnod cyntaf eich plentyn i ymglyfarwyddo â'r lleoliad ac i helpu eich plentyn i ymgartrefu. Cysylltwch â'r Rheolwr i drefnu hyn. Yn ystod sesiwn gyntaf eich plentyn bydd yn cael ei gyflwyno i'r staff a'r plant, bydd plant hyn fel arfer yn gwirfoddoli i weithredu fel cyfaill yn y sesiynau cyntaf. Gofynnwch am ein Polisi Anwytho Plant am ragor o wybodaeth.

Cyrraedd a Gadael

Mae ein staff yn casglu'r plant ac yn eu hebrwng i'r clwb lle mae cofrestr presenoldeb yn cael ei chwblhau. Ar ôl casglu eich plentyn, bydd Gweithiwr Chwarae yn llofnodi eich plentyn allan o'r clwb gan nodi'r amser y cafodd ei gasglu a phwy y cafodd ei gasglu ganddo. Gofynnwn yn garedig i rieni beidio â chasglu eu plentyn o'r clwb, yn lle hynny, ffoniwch ein rhif casglu pan gyrhaeddwch ac arhoswch wrth y giât. Bydd aelod o staff yn dod â'ch plentyn allan atoch chi. Ein rhif casglu yw: 07591 582 993. Rydym yn disgwyl y bydd eich plentyn yn cael ei gasglu gan y bobl rydych wedi'u henwi ar y Ffurflen Gofrestru. Os ydych yn dymuno i

berson gwahanol gasglu eich plentyn ar ddiwrnod penodol, rhaid i chi roi gwybod i ni ymlaen llaw. Ni fyddwn yn rhyddhau eich plentyn i ofal rhywun nad yw'n hysbys i ni heb eich awdurdodiad. Gofynnwch am ein Polisi Cyrraedd a Gadael am ragor o wybodaeth.

Mae'r clwb yn gorffen am 5:45pm, os bydd oedi am unrhyw reswm, ffoniwch y Rheolwr i roi gwybod i ni. Codir tâl o £5.00 am bob 15 munud rydych yn hwyr os byddwch yn casglu eich plentyn ar ôl i'r clwb gau. Os nad ydych wedi roi gwybod i ni y byddwch yn hwyr, ac rydym wedi methu â chysylltu â chi neu unrhyw un o'ch cysylltiadau brys, byddwn yn dilyn y Polisi Plant heb eu Casglu ac yn cysylltu â'r Tîm Gofal Cymdeithasol.

Amddiffyn/Diogelu Plant

Rydym wedi ymrwmo i adeiladu diwylliant o ddiogelwch lle mae'r plant sydd yn ein gofal yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth a niwed. Ymatebir yn brydlon ac yn briodol i unrhyw amheuaeth o gam-drin. Rydym yn cydymffurfio â gweithdrefnau amddiffyn plant lleol a chenedlaethol ac yn sicrhau bod yr holl staff wedi'u hyfforddi'n briodol. Byddwch yn ymwybodol y bydd angen i ni roi gwybod am bryderon heb siarad â chi yn gyntaf mewn rhai amgylchiadau. Mae manylion ynglŷn â phryd y gallai hyn fod yn angenrheidiol wedi'u cynnwys yn ein Polisi Diogelu.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Rydym yn gwneud pob ymdrech i ddarparu ar gyfer unrhyw blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol a'i groesawu. Byddwn yn gweithio ar y cyd â rhieni neu ofalwyr a gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddeall gofynion penodol eich plentyn yn llawn. Byddwn yn ymdrechu i ddarparu ar gyfer pob plentyn o bob gallu, gan weithio o fewn cyfyngiadau'r clwb. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol ac yn destun asesiad risg er mwyn sicrhau diogelwch pawb. Mae ein rhaglen hyfforddiant staff yn cynnwys elfennau penodol sy'n ymwneud â phlant ag anghenion dysgu ychwanegol. I gael mwy o fanylion am gyfle cyfartal ac anghenion dysgu ychwanegol, gofynnwch am ein Polisi Cydraddoldeb.

Gwybodaeth Ychwanegol

Ansawdd Gofal

Rydym yn cynnal adolygiadau blynyddol o'n gwasanaeth ac yn adlewyrchu adborth gan blant a'u rhieni yn yr Adolygiad Ansawdd Gofal. Rydym yn gofyn am adborth gan rieni yn ystod amser yr adolygiad, ond mae croeso i chi gyflwyno unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ar unrhyw adeg trwy siarad ag aelod o staff a/neu anfon e-bost at y Rheolwr. Mae'n ofynnol i ni rannu ein Hadolygiad Ansawdd Gofal ag Arolygiaeth Gofal Cymru.



Ymddygiad (Plant)

Mae plant a staff yn trafod y rheolau ac yn cytuno arnynt yn rheolaidd ynglŷn ag ymddygiad derbynol tra yn y clwb. Mae gennym Bolisi Rheoli Ymddygiad clir ac mae'r clwb yn hyrwyddo awyrgylch o ofal, ystyriaeth a pharch at bawb sy'n mynd yno: plant, staff ac ymwelwyr. Rydym yn annog ymddygiad priodol trwy: ganmoliaeth am ymddygiad da, pwyslais ar chwarae cydweithredol a rhannu, siarad â phlant gyda'r cwrteisi yr ydym yn ei ddisgwyl ganddynt ac ennyn diddordeb plant mewn gweithgareddau. Mae gan y clwb weithdrefnau ar gyfer ymdrin ag ymddygiad annerbynol. Rydym yn cydnabod y gall ymddygiad gwael ddigwydd o bryd i'w gilydd am resymau nad ydynt bob amser yn amlwg, neu o ganlyniad i anghenion dysgu ychwanegol. Byddwn yn ceisio bod yn hyblyg er mwyn darparu ar gyfer achosion o'r fath.

Fodd bynnag, os yw eich plentyn yn dreisgar neu os yw ei ymddygiad yn achosi perygl uniongyrchol iddo/i hun neu i eraill, byddwn yn gofyn i chi ei gasglu o'r clwb ar unwaith. Mewn amgylchiadau eithriadol, a dim ond pan fydd pob ymgais arall i reoli ymddygiad wedi methu, rydym yn cadw'r hawl i eithrio plentyn o'r clwb yn barhaol. Gofynnwch am ein Polisi Atal a Gwahardd am ragor o wybodaeth.

Ymddygiad (Oedolion)

Ni fyddwn yn goddef gan unrhyw berson, boed yn rhiant, gofalwr neu ymwelydd: bwlio, ymddygiad ymosodol neu fygythiol - neu ymddygiad y bwriedir iddo arwain at wrthdaro. Mae ein clwb yn lle diogel ar gyfer y plant sy'n mynd yno a'r staff sy'n gweithio yno, ac rydym yn cadw'r hawl i wahardd unrhyw un sy'n dangos ymddygiad amhriodol yn ein hadeilad. Gofynnwch am ein Polisi Ymddygiad Ymosodol am ragor o wybodaeth.

Salwch

Ni allwn ofalu am blant sy'n sâl. Os bydd eich plentyn yn mynd yn sâl tra yn y clwb, byddwn yn cysylltu â chi ac yn gofyn i chi wneud trefniadau iddo gael ei gasglu. Rhowch wybod i'r Rheolwr am unrhyw afiechyd heintus y mae eich plentyn yn ei ddal. Os yw eich plentyn wedi cael salwch neu ddolur rhydd, peidiwch â'i anfon i'r clwb am 48 awr ar ôl i'r salwch ddod i ben.

Os yw eich plentyn yn dechrau datblygu unrhyw symptomau o Covid-19, peidiwch â'i anfon i'r ysgol neu'r clwb. Rhaid iddo hunanynysu ar unwaith a rhaid i chi wneud trefniadau iddo gael prawf PCR. Gall symptomau Covid-19 gynnwys peswch newydd a pharhaus, dolur gwddf, gwres uchel, blinder ac anhawster anadlu. Rhowch wybod i'r Rheolwr os yw eich plentyn yn profi'n bositif am Covid-19 fel y gall roi gwybod i'r gwasanaeth Profi ac Orlhain a'i helpu. Gofynnwch am y Polisi Coronafeirws a'r Polisi Profi, Orlhain a Diogelu am ragor o wybodaeth.

Damweiniau, Cymorth Cyntaf ac Argyfyngau

Cymerir pob rhagofal i sicrhau diogelwch y plant bob amser, ac mae'r clwb wedi'i yswirio'n llawn. Mae ein staff wedi'u hyfforddi mewn Cymorth Cyntaf a chedwir pecyn Cymorth Cyntaf yn yr adeilad. Os bydd eich plentyn yn cael damwain tra bydd yn ein gofal, cewch wybod pan fyddwch yn casglu eich plentyn. Gofynnwch am ein Polisi Salwch a Damweiniau am ragor o wybodaeth.

Meddyginiaeth

Rhowch wybod i'r Rheolwr os yw eich plentyn yn cymryd meddyginiaeth ar bresgripsiwn. Os oes angen i'ch plentyn gymryd meddyginiaeth tra yn y clwb, bydd angen i chi lenwi ffurflen feddyginiaeth ymlaen llaw. Gofynnwch am ein Polisi Gweinyddu Meddyginiaeth am ragor o wybodaeth.

Y Drefn Gwyno

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, sylwadau neu os oes angen i chi drafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â'ch plentyn, mae croeso i chi siarad â'r Rheolwr neu aelod arall o staff. Bydd cwynion ar lafar yn arwain at gynnal cyfarfod staff i drafod a gweithredu. Cydnabyddir pob cwyn ysgrifenedig o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl eu cael a rhoddir ymateb ysgrifenedig llawn o fewn pythefnos. Gall rhieni godi pryder neu gŵyn ar unrhyw adeg gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) sy'n cofrestru ac yn archwilio ein darpariaeth. Gellir cysylltu ag AGC ar 0300 790 126 neu AGC, Swyddfa Llywodraeth Cymru, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, Conwy LL31 9RZ. Gofynnwch am ein Polisi Cwynion am ragor o wybodaeth.

Hysbysiad Preifatrwydd

Yng Nghlwb Plant Llandegfan Kids Club rydym yn parchu preifatrwydd plant sy'n mynd i'r clwb a phreifatrwydd eu rhieni neu eu gofalwyr. Defnyddir y wybodaeth bersonol a gasglwn amdanoch chi a'ch plentyn i ddarparu gofal priodol ar eu cyfer, cynnal ein gwasanaeth ar eich cyfer a chyfathrebu â chi yn effeithiol. Ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r wybodaeth bersonol sy'n ymwneud â chi a'ch plentyn yw er mwyn i ni allu cyflawni ein contract gyda chi. Mae unrhyw wybodaeth a roddwch yn cael ei chadw'n ddiogel. Mae data nad oes ei angen mwyach yn cael ei ddileu ar ôl i'ch plentyn roi'r gorau i fynd i'n clwb.

Byddwn yn defnyddio'r manylion cyswllt rydych yn eu darparu i gysylltu â chi dros y ffôn a dros e-bost fel y gallwn anfon gwybodaeth atoch am eich plentyn, am ein clwb a hefyd fel y gallwn gyfathrebu â chi ynglŷn â thalu ein ffioedd.

Dim ond os oes gennym bryder diogelu am eich plentyn y byddwn yn rhannu gwybodaeth bersonol amdanoch chi neu eich plentyn â sefydliad arall, yn ogystal â phan fydd cyrff llywodraethu neu asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn gofyn i ni neu pan fyddwn wedi cael eich caniatâd ymlaen llaw. Mae gennych yr hawl i ofyn am weld y data sydd gennym amdanoch chi eich hun neu eich plentyn, ac mae gennych yr hawl i ofyn am gywiro unrhyw wallau. Byddwn yn ymateb i bob cais o'r fath o fewn mis. Gallwch hefyd ofyn i'r data gael ei ddileu, ond noder:

- Ni fyddwn yn gallu parhau i ofalu am eich plentyn os nad oes gennym wybodaeth ddigonol amdano.
- Hyd yn oed ar ôl i'ch plentyn adael ein gofal, mae gennym ddyletswydd statudol i gadw rhai mathau o ddata am gyfnodau penodol o amser, felly, ni allwn ddileu popeth ar unwaith.

Os oes gennych gŵyn ynglŷn â sut rydym wedi cadw eich gwybodaeth yn ddiogel, neu sut rydym wedi ymateb i gais am gael mynediad, diweddarau neu ddileu eich data, gallwch ein cyfeirio at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae angen i ni gadw rhai mathau o ddata (megis cofnodion cwynion, damweiniau a phresenoldeb) am gyfnodau penodol o amser ar ôl i'ch plentyn roi'r gorau i fod yn ein gofal, ond rydym yn dileu cymaint o ddata personol ag y gallwn cyn gynted â phosibl.

Addewid i Rieni

Rydym yn gwerthfawrogi ein perthynas â rhieni/gofalwyr ac rydym wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â chi i ddarparu gofal a chwarae o'r safon uchaf i'ch plant.

Byddwn yn:

- Eich croesawu pan gyrhaeddwch i gasglu eich plentyn
- Rhoi gwybod i chi am amseroedd agor, ffioedd a thaliadau, rhaglenni gweithgareddau, newidiadau i fwydlenni a gweithdrefnau
- Bod yn gyson ac yn ddibynadwy i'ch galluogi i gynllunio gyda hyder a thawelwch meddwl
- Rhannu a thrafod profiadau eich plentyn yn y clwb o bryd i'w gilydd
- Bod ar gael i drafod unrhyw bryderon sydd gennych o bosibl
- Gofyn am eich caniatâd ar gyfer teithiau
- Gwrando ar eich barn a'ch pryderon i sicrhau ein bod yn parhau i fodloni eich anghenion

Mae'r Datganiad o Bwrpas hwn a'r holl bolisiau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu a'u diweddarau yn ôl yr angen a/neu'n unol ag unrhyw newidiadau mewn rheoleiddio, ac o leiaf unwaith y flwyddyn. Rhoddir gwybod i AGC am unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth. Mae'r clwb yn rhoi gwybod i rieni/gofalwyr am unrhyw newidiadau i bolisiau a gweithdrefnau'r clwb.

Mabwysiadwyd y Datganiad o Bwrpas hwn gan: Clwb Plant Llandegfan Kids Club

Dyddiad: Hydref 2021

I'w adolygu: Awst 2022

Llofnod: Patricia Roberts - Rheolwr

